



Information Commissioner's Office
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg

Ebrill 2017 i Fawrth 2018

Rhagymadrodd

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw swyddfa rheoleiddiwr y ddeddfwriaeth ar hawliau gwybodaeth yn y Deyrnas Unedig, ac mae hi o dan nifer o rwymedigaethau cyfreithiol o ran y Gymraeg. Nodir y rhain yn llawn yn [hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg](#).

Un o'r gofynion hyn yw cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar y camau a gymerwyd o ran cydymffurfio â'r safonau uchod. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2017 hyd at Fawrth 2018.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gwelodd yr ICO alw ar ei gwasanaethau a'i hadnoddau a oedd heb ei weld o'r blaen. Y prif reswm am hyn oedd gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Y cefndir

Mae'r ICO yn rheoleiddiwr i'r Deyrnas Unedig gyfan, gan ymdrin â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Prif swyddogaeth swyddfa ranbarthol Cymru yw sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu hadlwyrcu'n briodol yng ngwaith y sefydliad ehangach, ond mae swyddfa Cymru hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Cymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

Y camau a gymerwyd

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i randdeiliaid Cymraeg eu hiaith. Er gwaethaf y galw am wasanaethau a grybwyllwyd uchod, rydym yn falch o nodi ein bod wedi parhau i gael llif o adborth cadarnhaol o ran ein darpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn adlwyrcu ymrwymiad parhaus yr ICO i ymwneud â'r rhanddeiliaid yn Gymraeg.

Ymholiadau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr ICO 173 o ymholiadau yn Gymraeg, sef 9.46% o'r holl ymholiadau a drafodwyd gan swyddfa'r ICO yng Nghymru. Mae'r ymholiadau hyn yn ymrannu'n 42 drwy'r e-bost, 5 drwy lythyr a 126 o ymholiadau ffôn. Yn Gymraeg yr ymatebwyd i bob un o'r ymholiadau hyn.

Gwaith achosion

Ymdriniodd ein tîm achosion rhyddid gwybodaeth â phum achos Cymraeg, a chynhaliwyd un apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Gymraeg hefyd.

Yn Wilmslow y mae swyddfa'r tîm diogelu data, a ymdriniodd â phedair cwyn yn Gymraeg.

Cwynion

Cawsom un gŵyn uniongyrchol ynglŷn â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Tynnodd hyn sylw at ddiffyg ffurflen Gymraeg ar-lein ar gyfer rhoi gwybod inni am alwadau niwsans. Mae hon wedi'i datblygu bellach ac wedi'i rhoi ar waith. Mae ar gael [yma](#).

Ym mis Medi 2017, buom yn ymwneud yn llawn ag ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg a oedd wedi cael cwyn ynglŷn â galwad ffôn a wnaed i swyddfa ranbarthol Cymru. Rhoddasom dystiolaeth i ategu'n barn bod ein gweithredoedd yn cyd-fynd â'r safonau ynglŷn â darparu gwasanaethau a osodwyd arnom. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn dal i ddisgwyl canlyniad ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth

Parhaodd swyddfa ranbarthol Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

Cafodd hyn ei wneud drwy gyfarfodydd â chydweithwyr a thynnu sylw at ofynion ynglŷn â'r Gymraeg, a hefyd drwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb yn ystod sesiynau ymsefydlu corfforaethol i staff newydd. Roedd hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau adolygiadau o brosesau cyn i'r GDPR gael ei roi ar waith.

Cafodd y broses cyfieithu Cymraeg ei mireinio hefyd, gyda swyddfa ranbarthol Cymru'n goruchwyllo'r swyddogaeth. Mae hyn wedi caniatáu goruchwyliaeth gliriach dros ofynion cyfieithu'r ICO, fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Er nad oes cofnod yn cael ei gadw o'r cyfathrebu rhwng cydweithwyr, mae staff swyddfa ranbarthol Cymru yn dweud bod yna gynnydd yn nifer y cyfeiriadau Cymraeg a gawson nhw gan staff y tu allan i Gymru. Ategir hyn gan y cynnydd yn y gwaith cyfieithu.

Hyfforddiant

Mae'r ICO yn dal i annog ac i baratoi'r staff i allu ymdrin â rhanddeiliaid yn Gymraeg drwy gydol eu taith drwy'r gwasanaeth. Bob blwyddyn, mae pob aelod o'r staff yng Nghymru yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Parhawyd i ariannu dosbarthiadau Cymraeg i un aelod o'r staff, ac yn yr un modd cafodd dosbarthiadau Cymraeg eu hariannu i aelod o'r staff a ymunodd â'r ICO ym mis Mawrth 2017.

Yn ychwanegol, llwyddodd aelod arall o'r staff i gwblhau'r cwrs a'r arholiad lefel Mynediad 1. Unwaith eto, cafodd y cwrs a'r arholiad eu hariannu'n llawn gan yr ICO.

Asesiad o sgiliau'r staff

Mae gan swyddfa ranbarthol Cymru ddau aelod staff sydd â medrau Cymraeg llafar rhagorol. Un o'r ddau hyn sy'n bennaf cyfrifol am fod yn bwynt cysylltu i'r rhanddeiliaid, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r ymholiadau Cymraeg i'r swyddfa yn cael eu trafod yn ystod y cam cychwynol hwn.

Mae'r ddau sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i ymateb i ymholiadau ysgrifenedig neu ymholiadau e-bost yn Gymraeg lle maen nhw'n teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny heb droi at gyfieithydd proffesiynol. Y nod yn hyn o beth yw datblygu sgiliau ysgrifenedig mewnol.

Mae gan un aelod o'r staff fedrau lefel Mynediad 1, ac mae holl staff Swyddfa Cymru'n gallu ateb y ffôn yn ddwyieithog.

Recriwtio

Ni chafodd unrhyw staff newydd eu recriwtio i swyddfa'r ICO yng Nghymru yn 2017-2018.

Cyfieithu

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd £6998.99 ei wario ar gyfieithu dogfennau. Dyna gynnydd o £2,679.06 (62%) ar y flwyddyn cynt.

Cafodd cyfanswm o 76 o ddogfennau eu cyfieithu, rhai yn fewnol, gan gynnwys arolwg sicrwydd, gohebiaeth gwaith achosion, negeseuon i'r cyfryngau cymdeithasol a nifer o hysbysiadau i'r wasg.

Camau sydd ar y gweill

Ar gyfer y cyfnod Ebrill 2018 i Fawrth 2019, bydd yr ICO yn parhau i ddatblygu ei wasanaethau Cymraeg. Yn benodol, mae'r ICO yn sicrhau bod gweithdrefnau sydd newydd gael eu creu i fynd i'r afael â gofynion rheoliadol y GDPR yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg pan fo angen hynny.

Maes arall i'w ddatblygu yw rhyngwyneb gwefan yr ICO, a ddylai fod ar gael yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Serch hynny, rhagwelir y gall newidiadau yn y llwyfan sy'n cynnal y wefan effeithio ar yr amserlenni ar gyfer y datblygiad hwn.

Byddwn yn parhau i asesu effaith yr hyfforddiant Cymraeg i'r staff, ac rydym wedi ymrwymo i nodi cyrsiau a chyfleoedd dysgu er mwyn datblygu sgiliau'r staff ar bob lefel drwy gydol 2018. Rydym yn anelu'n benodol at gysoni cyfleoedd o'r fath â gofynion penodol rolau'r staff, a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.